# Cyrraedd yno gyda'n gilydd

Pecyn cymorth i Awdurdodau Lleol: Cynwysoldeb a Hygyrchedd y Broses Ymgynghori ar Newidiadau mewn Gwasanaethau Trafnidiaeth yng Nghymru

# Cynnwys


Rhagair gan y Gweinidog....................................3

Argymhellion....................................4

Y Cyd-destun....................................5

Y cefndir cyfreithiol....................................8

Cyflwyniad....................................10

Buddion hygyrchedd a chynwysoldeb....................................13

Sut i gynnal ymgynghoriad cynhwysol a hygyrch....................................17

1. *Ymgysylltu'n gynnar*....................................17
2. *Ymgynghoriad cyhoeddus*....................................19

*2.1 Beth ddylai gael ei gyfleu*....................................20

*2.2 Â phwy ddylid ymgynghori*....................................20

*2.3 Sut mae gwneud y broses ymgynghori'n gynhwysol*....................................21

Casgliad....................................26

Atodiadau....................................27

# Rhagair gan y Gweinidog

Rwy’n croesawu’r canllawiau defnyddiol hyn sydd wedi cael eu paratoi ar ran Panel Cynghorol Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru. Eu nod yw cynorthwyo awdurdodau lleol i ymgysylltu’n effeithiol â chymunedau lleol wrth iddynt ddatblygu a rhoi ar waith eu cynlluniau ar gyfer gwasanaethau bysiau lleol yn eu hardaloedd.

Mae’r canllawiau hyn yn edrych yn benodol ar sut y gallwn sicrhau y clywir lleisiau’r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn fater o wneud yn siŵr ein bod mewn sefyllfa i ddarparu’r math o wasanaethau trafnidiaeth mae eu hangen, mewn ffordd gynhwysol. Gwnawn hyn trwy asesu effaith newidiadau a gynllunnir mewn gwasanaethau trafnidiaeth ar fywydau pobl cyn inni weithredu’r newidiadau hynny. Mae hyn yn golygu eu cynnwys wrth inni wneud penderfyniadau ar adeg gynnar a gwneud yn siŵr nad yw ein cynlluniau’n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grwpiau, ac yn arbennig y rhai sy’n fregus ac o bosibl yn dibynnu ar y gwasanaethau hynny.
Nid yw hyn yn golygu na allwn neu na ddylem wneud newidiadau, ond dylid gwneud y penderfyniadau hyn mewn ffordd sy’n cynnwys y rhai maent yn effeithio arnynt, ac sy’n agored am y rhesymau dros wneud newidiadau ac am yr opsiynau sydd ar gael.

Rwy’n hyderus y bydd y canllawiau hyn yn helpu i wella gallu’r sector cyhoeddus i gynllunio, datblygu a darparu’r gwasanaethau cynhwysol y mae ar gymunedau ledled Cymru eu hangen.

# Argymhellion

1. Sicrhau bod y broses ymgynghori'n gynhwysol ac yn hygyrch trwy:

   (i) Ymgysylltu'n gynnar;
   
   (ii) Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus eang ei gwmpas gan ddefnyddio dull cymysg;
   
   (iii) Cydweithio â grwpiau a sefydliadau cymunedol.

2. Peidio byth â thorri neu newid gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol heb wneud dadansoddiad llawn a thrylwyr o'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar lesiant pawb yn y gymuned. Dylid cadw'r gwasanaethau ar y lefelau presennol hyd nes y gellir gwneud penderfyniad ar ôl ymgynghoriad llawn.

3. Gwneud ymchwil er mwyn deall yn well pa effaith fydd y toriadau i wasanaethau bysiau yn ei chael ar gymunedau ac ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig.

4. Cyfleu canlyniadau'r broses ymgynghori a'r camau nesaf yn effeithiol bob amser.

# Y Cyd-destun

> *“Ar y diwrnod olaf y rhedodd ein bws, oedd yn cael cymhorthdal, cyn i’r gwasanaeth gael ei dorri, roedd chwe theithiwr. Roedd e’n hollbwysig. Alla i ddim mynd mas nawr.”* **Pat, Caerdydd**

Mae colli gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol yn cael effaith sylweddol ar bob rhan o’r gymuned. Mae Awdurdodau Lleol, cwmnïau bysiau a sefydliadau trafnidiaeth gymunedol i gyd wedi gweld eu cyllid yn lleihau yn raddol oherwydd toriadau ariannol. Yr ofn yw y bydd yr effeithiau’n arwyddocaol ac yn bellgyrhaeddol.

Mae trafnidiaeth yn un o’r meysydd sydd wedi’u datganoli i Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru’n gwneud penderfyniadau ynghylch sut y caiff yr arian ei ddyrannu, er enghraifft, cyllid ar gyfer bysiau trwy’r Grant Cymorth Gwasanaethau Bysiau (a ddefnyddir i roi cymhorthdal i lwybrau nad ydynt yn fasnachol hyfyw ond a ystyrir yn angenrheidiol yn gymdeithasol, neu i ariannu trafnidiaeth gymunedol ddielw). Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu’r cynllun cardiau teithio am ddim ar fysiau, er nad yw cwmnïau bysiau’n cael ond cyfran o gost pob taith mae deiliad cerdyn yn mynd arni. Ers mis Ebrill 2013 ni ellir defnyddio cardiau teithio am ddim ar fysiau ar y rhan fwyaf o wasanaethau trafnidiaeth gymunedol yng Nghymru.

Mae llawer o sefydliadau’n gallu dangos yr effaith mae toriadau i wasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol yn ei chael ar iechyd a lles pobl â nodweddion gwarchodedig. Er enghraifft, mae Guide Dogs Cymru wedi codi pryderon nad yw pobl â nam ar eu golwg yn Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd wedi gallu cyrraedd meddygfeydd eu meddygon teulu a gwasanaethau hanfodol eraill. Rhybuddiodd adroddiad gan Sustrans (2012) *“The rising cost of transport and the inadequacy of our public transport system means people feel excluded and*

*isolated, unable to access opportunities, from jobs to healthcare, that many take for granted"*. Ers 2012 gwnaethpwyd rhagor o doriadau i wasanaethau bysiau; mae'n bwysig inni ddeall yn well pa effaith mae'r toriadau hyn yn ei chael ar gymunedau, trwy ddatblygu sylfaen dystiolaeth fwy cadarn. Yn fwy diweddar pwysleisiodd adroddiad a gyhoeddwyd yn 2014 gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru fod gwasanaethau bysiau'n hanfodol i gynnal iechyd y cyhoedd, cynhwysiant yn ein cymdeithas a'r agenda atal.[1]

Mae llawer o sefydliadau yn y trydydd sector yn honni y bu effaith anghymesur ar fywydau rhai grwpiau o bobl o ganlyniad i benderfyniadau a wnaethpwyd eisoes gan nifer o Awdurdodau Lleol ledled Cymru. Mewn cyfnodau anodd, mae angen gwneud penderfyniadau anodd. Fodd bynnag, mae gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol yn adnoddau hanfodol y mae angen eu cynnal er iechyd a lles unigolion, cymunedau, yr economi a'r amgylchedd.

O gofio'r rhagolygon ariannol i lywodraeth leol, disgwylir y bydd yn rhaid gwneud rhagor o benderfyniadau anodd am ddyfodol gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol. Mae'n hanfodol, yn y dyfodol, fod pawb yn ein cymuned yn cael cyfle i fod yn bartner yn y gwaith o wneud penderfyniadau am wasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol yn y dyfodol.

Gan fod amrywiaeth o gyrff yn ymwneud â rhedeg gwasanaethau bysiau yng Nghymru mae'r sefyllfa'n gymhleth, ond ni ddylai hyn olygu na ellir mynd ati i ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned wrth wneud penderfyniadau. Mae cyfran y gwasanaethau masnachol o gymharu â gwasanaethau sy'n cael cymhorthdal yn amrywio ledled Cymru. Er enghraifft, mae ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o fod â nifer fwy o wasanaethau sy'n cael cymhorthdal o gymharu ag ardaloedd

[1] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 'Pwysigrwydd ac Effaith Gwasanaethau Cymunedol yng Nghymru.' http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Pwysigrwydd_ac_Effaith_Gwasanaethau_Cymunedol_yng_Nghymru.sflb.ashx

mwy trefol sydd mewn sefyllfa well i gynnal gwasanaethau masnachol. Fodd bynnag, Awdurdodau Lleol sy’n penderfynu pa wasanaethau ddylai gael cymhorthdal ac o dan rai amgylchiadau mae’n bosibl y byddant yn rhoi cymorth ariannol i wasanaeth mewn ardal drefol er mwyn sicrhau y caiff llwybr bysiau ei warchod. Yn ychwanegol at wasanaethau bysiau mae’r sector trafnidiaeth gymunedol yng Nghymru hefyd yn cael cyllid i redeg rhai gwasanaethau.

Mae’n ofynnol i bob gweithredwr gofrestru llwybrau gyda’r Comisiynwyr Traffig ac mae’n rhaid iddynt roi 56 diwrnod o rybudd am unrhyw newid i wasanaeth sy’n bodoli eisoes; er y gall gweithredwyr ofyn am gyfnod rhybudd byrrach os ydynt wedi cael cefnogaeth yr awdurdod lleol. Nid yw’r cyfnod byrrach yn caniatáu digon o amser i wybodaeth am newidiadau gael ei chyfleu’n effeithiol ac felly dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid caniatáu cyfnodau rhybudd byr. Mae’n bwysig bod teithwyr, sydd efallai yn dibynnu ar y gwasanaethau hyn i gyrraedd y gwaith neu i ddefnyddio gwasanaethau pwysig, hefyd yn cael cymaint o rybudd ag sy’n bosibl er mwyn gwneud trefniadau eraill.

Cyn tynnu cyllid yn ôl oddi wrth wasanaeth sy’n cael cymhorthdal mae’n rhaid i Awdurdod Lleol gynnal ymgynghoriad cyhoeddus a chyflawni Asesiad llawn o’r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae rhai Awdurdodau Lleol yn ymgysylltu ac ymgynghori’n dda iawn ac rydym wedi cynnwys rhai enghreifftiau o arferion da. Fodd bynnag, mae pryder cynyddol nad yw ymgynghoriadau wedi cael eu cynnal cyn i benderfyniad gael ei wneud, ac nad ydynt wedi bod yn gynhwysol nac yn hygyrch.

# Y cefndir cyfreithiol

Fel cyrff cyhoeddus, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac maent hefyd yn ddarostyngedig i Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae un o'r dyletswyddau penodol yn ymdrin â materion yn ymwneud ag ymgysylltu ac yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i sicrhau bod unrhyw ymgynghoriad ar newidiadau neu doriadau i wasanaethau bysiau yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn ystyrlon.

Mae'r rhan fwyaf o'r cwmnïau bysiau yng Nghymru o dan berchnogaeth breifat ac nid yw'n ofynnol iddynt gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar newidiadau i lwybrau cwbl fasnachol gan nad ydynt yn ddarostyngedig i Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Er hynny mae dyletswydd ar bob darparwr trafnidiaeth gyhoeddus (pa un ydynt yn cael unrhyw gymhorthdal ai peidio) o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i sicrhau bod eu gwasanaethau'n hygyrch. Mae sicrhau bod gwasanaeth yn hygyrch yn mynd ymhellach na hygyrchedd ffisegol yn unig ac yn cynnwys sut y gall rhywun gael gwybodaeth am wasanaethau bysiau. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn mynnu newidiadau 'rhesymol' i bolisïau ac arferion a all greu anfantais sylweddol i rai pobl a byddai hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth. Mae Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd ar Hawliau Teithwyr ym maes trafnidiaeth bysiau a choetsis sy'n gwneud mynediad anwahaniaethol i drafnidiaeth yn ofynnol wedi bod mewn grym ers mis Mawrth 2013. Mae gofyniad arall nad yw wedi'i ddeddfu eto yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu drwy gydol y daith. Bydd y pecyn cymorth hwn o fudd i bob darparwr trafnidiaeth gyhoeddus gan ei fod yn darparu canllawiau defnyddiol a all helpu i sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch.

Ni waeth beth fo’r agweddau cyfreithiol mae’n synnwyr busnes da i gwmnïau preifat ymgynghori â’r cyhoedd er mwyn deall yn well pa wasanaethau sydd, neu a allai fod, yn hyfyw yn fasnachol. Gallai ennyn cefnogaeth cymunedau, yn ei dro, symbylu’r cymunedau i redeg ymgyrch ‘byddwch yn ei golli os na fyddwch yn ei ddefnyddio’ i gefnogi gwasanaethau masnachol.

# Cyflwyniad

> *"Os oes ymgynghoriad, mae er eu budd nhw…pe baen nhw [gwasanaethau bysiau] yn eiddo i mi, fyddwn i byth yn gadael iddyn nhw dorri gwasanaethau heb unrhyw ganlyniadau."*
>
> **Lynda, Bro Morgannwg**

Nod y pecyn cymorth hwn yw cynorthwyo Awdurdodau Lleol i sicrhau bod eu hymgynghoriadau'n hygyrch, yn gynhwysol ac yn ystyrlon. Diben y pecyn cymorth yw sicrhau y cynhelir ymgynghoriad llawn ac ystyrlon â phawb, yn enwedig y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, pan gynigir newidiadau i wasanaethau bysiau. Bwriedir i'r pecyn cymorth fod yn ddogfen fer, ddefnyddiol ac ymarferol i aelodau etholedig ac i swyddogion er mwyn sicrhau yr ymgysylltir ac yr ymgynghorir â phobl ledled Cymru, gan sicrhau y deellir eu hanghenion, eu pryderon a'u blaenoriaethau yn llawn pan gynigir newidiadau i wasanaethau bysiau.

Cyn tynnu cyllid yn ôl o wasanaeth sy'n cael cymhorthdal, dylai Awdurdod Lleol gynnal ymgynghoriad cyhoeddus eang ei gwmpas, gan geisio barn sampl fawr o'r boblogaeth. Mae angen i Awdurdodau Lleol ystyried y dimensiwn cydraddoldeb i drafnidiaeth oherwydd bod newidiadau neu doriadau i wasanaethau bysiau yn cael effeithiau anghymesur ar grwpiau o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Felly mae'n bwysig i ymgynghoriadau fod yn hygyrch ac yn gynhwysol, sy'n golygu y dylid mabwysiadu dull gwahanol, nid yn unig wrth gysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd neu grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, ond hefyd wrth gynnal yr ymgynghoriad ei hun.

Yn ogystal â chynnal ymgynghoriad cyhoeddus mae gofyniad cyfreithiol i gynnal Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae Asesiad o'r fath yn hanfodol oherwydd, os caiff ei gynnal yn gywir, bydd yn tynnu sylw at yr effeithiau anghymesur y gall toriadau i rai llwybrau bysiau sy'n cael cymhorthdal eu cael ar

bobl sydd â nodweddion gwarchodedig penodol e.e. pobl anabl a phobl hŷn. Er na fwriedir i'r pecyn cymorth hwn roi gwybodaeth ynghylch sut i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, bwriedir iddo gynorthwyo Awdurdodau Lleol i gyflawni eu dyletswydd gyffredinol i ymgynghori â phobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Bydd Canllawiau Arfer Da y bydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru'n eu cyhoeddi cyn bo hir yn rhoi cyngor a chymorth ar gyflawni Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gwaith craffu ar newidiadau i wasanaethau cymunedol, gan gynnwys bysiau cyhoeddus. Dylai proses ymgysylltu ac ymgynghori dda edrych ar y ffordd y gall y newidiadau neu doriadau arfaethedig i wasanaethau bysiau effeithio ar wahanol grwpiau yn ein cymdeithas: pobl ifanc, pobl hŷn, pobl anabl, menywod a phobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Mae'n hanfodol nad yw pobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn cael eu hystyried ar ôl popeth arall wrth gynllunio trafnidiaeth, o gofio bod perygl y bydd unrhyw newidiadau neu doriadau i wasanaethau bysiau'n cael effaith anghymesur arnynt.

## Astudiaeth Achos

Cysylltodd Mrs J â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru oherwydd bod y gwasanaeth bws yr oedd yn arfer teithio arno'n dod i ben. Cysylltodd â'r cwmni a ddywedodd wrthi nad oedd y llwybr yn cael ei ddefnyddio ac nad oedd yn creu digon o elw i barhau. Ni roddwyd unrhyw rybudd bod y llwybr hwn yn dod i ben a dywedwyd wrth y bobl leol am y penderfyniad yn hytrach nag ymgynghori â nhw amdano.

Cododd Mrs J y pwynt bod y llwybrau bysiau hyn rhwng trefi a phentrefi gwledig yn hollbwysig i bobl hŷn. Mae torri'r gwasanaethau hyn yn gwneud eu cardiau bws yn ddiwerth ac yn ynysu'r gymuned fusnes leol yn ei hardal.

Dywedodd teithiwr arall wrth Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru bod ei llwybr bws lleol wedi cael ei newid. Aeth i ddigwyddiad ymgynghori ond ni theimlai fod yr Awdurdod Lleol wedi gwrando ar y materion yr oedd hi a phobl eraill wedi'u codi ynghylch yr effaith y byddai'r cynigion yn ei chael ar y gymuned leol. Yr effaith yw bod cyfyngiad ar yr amser y gall pobl hŷn ei dreulio yn eu tref leol a bod teithio ymlaen i drefi eraill yn y rhanbarth yn amhosibl erbyn hyn.

# Beth yw buddion sicrhau bod ymgynghoriadau'n hygyrch ac yn gynhwysol?

"*Mae dwy filiwn o bobl sydd â phroblemau â'u golwg [ledled y Deyrnas Unedig] yn golygu llawer o gwsmeriaid posibl. Siawns ei bod yn gwneud synnwyr economaidd i wneud popeth a allwch i'w cyrraedd.*"

**The Royal National Institute of Blind People (RNIB)**

Ni ddylid bwrw ymlaen â newidiadau i wasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol heb ddadansoddiad llawn a thrylwyr o'r effaith y byddant yn ei chael ar les pawb yn y gymuned. Mae ymgynghoriadau sy'n cynnwys grwpiau cydraddoldebau (boed fel unigolion yn y gymuned neu grwpiau neu sefydliadau cymunedol cynrychioladol) o fudd i bawb, gan eu bod yn sicrhau y rhoddir sylw priodol i'r effaith mae penderfyniadau'n ei chael ar wahanol grwpiau fel rhan annatod o'r cam cynllunio a datblygu.

Mae'n bwysig bod ymgynghoriadau'n hygyrch ac yn gynhwysol er mwyn sylweddoli'n llawn bod newidiadau a thoriadau i lwybrau bysiau'n cael mwy o effaith ar y bobl dlotaf yn ein cymdeithas, pobl hŷn, pobl ifanc a phobl anabl, nag ar grwpiau eraill yn ein cymdeithas.

Mae'r gwaith o ymgysylltu'n uniongyrchol ac edrych ar amrywiaeth fawr o brosesau partneriaethol arloesol yn gallu arwain at ganlyniadau cadarnhaol i'r gymuned ac i Awdurdodau Lleol. Mae ymgysylltu'n gynnar yn debygol o arwain at atebion arloesi newydd neu ffyrdd eraill o liniaru'r effaith sy'n creu canlyniadau terfynol gwell i Awdurdodau Lleol ac i gymunedau.

Gall ymgynghoriadau da arwain at gasglu data mwy cywir, yn enwedig ar yr effaith mae newidiadau i wasanaethau'n debygol o'i chael, a gallant helpu i ganfod ffyrdd eraill o arbed arian a gwneud gwelliannau.

Mae Awdurdodau Lleol ledled Cymru'n debygol o wynebu rhagor o heriau cyllidebol yn ystod y blynyddoedd i ddod ac felly mae angen taer i ganfod atebion newydd ac arloesol i ymdrin â chanlyniadau newidiadau i wasanaethau bysiau. Gall gwell gwaith ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau arwain at opsiynau o ran arbedion effeithlonrwydd y gellir eu cyflawni mewn ffyrdd llai niweidiol e.e. atebion creadigol i integreiddio cludiant rhwng y cartref a'r ysgol â gwasanaethau bysiau rheolaidd neu lwybrau newydd a fydd yn cynyddu nifer y teithwyr.

Rydym yn cydnabod bod cost i'r broses ymgynghori a chost a achosir gan yr oedi wrth sicrhau arbedion. Fodd bynnag, mae buddion ymgynghori'n drech na'r costau hynny. Adnoddau cyfyngedig sydd gan Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd ond nid oes yn rhaid i ymgynghoriadau fod yn ddrud, yn enwedig gyda chefnogaeth grwpiau a sefydliadau cymunedol. Mae'r broses ymgynghori'n rhoi cyfle i newid cynigion er gwell a gwneud buddion o ran costau yn y tymor hirach yn bosibl.

Hefyd gallai Awdurdodau Lleol wynebu heriau cyfreithiol costus os nad ydynt yn cymryd eu dyletswydd i ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau o ddifrif. Nid bygythiad camau cyfreithiol ddylai fod y prif reswm dros gynnal prosesau ymgysylltu ac ymgynghori, ond bydd proses ymgynghori gynhwysol a hygyrch yn galluogi Awdurdodau Lleol i roi ystyriaeth lawn a phriodol i'r effaith bosibl ar wahanol grwpiau. Mae hyn hefyd yn sicrhau nad yw'r Awdurdod Lleol mewn sefyllfa lle caiff penderfyniadau eu herio, neu efallai hyd yn oed eu gwrthdroi, trwy gamau cyfreithiol. Mae yna enghreifftiau cyfraith achosion o Awdurdodau Lleol sydd wedi wynebu camau cyfreithiol ac mae'r costau cysylltiedig yn llawer mwy na chost cymryd rhai camau syml ar y dechrau i sicrhau ymgynghoriad trylwyr â gwahanol grwpiau.

Hefyd, mae dyletswydd ar Awdurdodau Lleol erbyn hyn o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i feddwl am effaith hirdymor y penderfyniadau maent yn eu gwneud. Felly mae'n rhaid i benderfyniadau ynghylch gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol gymryd i ystyriaeth yr effaith y gallent ei chael yn y dyfodol ar bobl sy'n byw yng Nghymru. Mae gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol yn hanfodol er mwyn i Awdurdodau Lleol ddangos sut maent yn gweithio i gyflawni'r saith nod llesiant.

Yn bwysicaf oll dylai prosesau ymgysylltu ac ymgynghori fod yn gynhwysol ac yn hygyrch gan ei bod yn fwy tebygol y bydd mwy o effeithiau ar rai rhannau o'r gymuned, er enghraifft:

- Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig eisoes wedi'u gwthio i'r cyrion a bydd toriadau i wasanaethau yn cynyddu arwahanrwydd ac anawsterau i lawer ohonynt;
- Nid oes car gan chwarter yr aelwydydd yng Nghymru a pho dlotaf ydych chi, lleiaf tebygol ydych chi o fod â char;
- Mae pobl hŷn a phobl anabl yn fwy tebygol o ddefnyddio bysiau ac yn llai tebygol o allu defnyddio car; mae llawer, fel pobl sydd â nam ar eu golwg, yn methu â defnyddio ceir;
- Mae menywod yn llai tebygol o yrru na dynion ac felly mae toriadau i wasanaethau bysiau'n fwy tebygol o gael effaith andwyol arnynt;
- Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn hanfodol i lawer o bobl i gael gofal iechyd;
- Bydd parhau i dorri ar lwybrau bysiau sy'n cael cymhorthdal yn effeithio ar gynhwysiant cymdeithasol, iechyd ac ansawdd bywyd pobl. Felly mae gan y bobl y bydd effaith arnynt hawl i ddisgwyl yr ymgynghorir â nhw pan gynigir newidiadau o'r fath.

# Astudiaeth Achos

***Gorsaf Fysiau Caerdydd***

Yn hydref 2014, cafodd Guide Dogs a Sefydliad y Deillion Caerdydd eu cynrychioli mewn tri chyfarfod lle trafodwyd cau Gorsaf Fysiau Caerdydd yn y dyfodol agos. Rhoddwyd cyflwyniadau a gofynnwyd cwestiynau. Rhwng popeth, roedd yn ddechrau da i'r broses ymgysylltu.

Gwnaethpwyd hyn trwy Grŵp Ffocws Mynediad Cyngor Caerdydd, (CCAFG), sy'n cynrychioli amrywiaeth o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae gan y CCAFG hanes da o gefnogi Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gynlluniau yn y ddinas sy'n amrywio o gynllun Dewi Sant 2 i brosiectau adfywio mawr, ac roedd yn disgwyl yn hyderus y byddai'r gwaith ymgysylltu'n parhau.

Fodd bynnag, ymddangosai fod y cyfathrebu ar bwnc yr Orsaf Fysiau wedi dod i ben tua dechrau 2015, felly roedd y newyddion am gau'r orsaf fysiau'n syndod llwyr. Ysgrifennodd RNIB a Guide Dogs i gwyno'n swyddogol bod anghenion pobl sydd wedi colli golwg wedi cael eu hesgeuluso, a bod y newidiadau i leoliad safleoedd bysiau yn eu rhoi mewn perygl. Codasom ein pryderon yn y wasg ac ar Radio Wales hefyd.

I ddechrau, nid oedd ymateb Cyngor Caerdydd yn foddhaol. Darparodd gopïau print o daflen sy'n nodi'r newidiadau ac ni chynigiwyd unrhyw fersiynau sain na fersiynau electronig hygyrch. Gan nad oedd hyn yn cyfateb o gwbl â'r hyn sy'n ofynnol gan y Ddeddf Cydraddoldeb, cynyddodd RNIB a Guide Dogs y pwysau ac yn y diwedd cawsant eu gwahodd i gyfarfod gyda'r Prif Weithredwr. Erbyn hyn cytunwyd y gwneir Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y cynlluniau ar gyfer yr Orsaf Fysiau newydd. Bydd Cyngor Caerdydd yn darparu mapiau cyffyrddadwy a gwybodaeth sain a bydd Guide Dogs ac RNIB yn cynorthwyo'r Cyngor i ledaenu gwybodaeth ynghylch ble i'w cael. Bydd y Cyngor yn cefnogi ymgysylltu cynnar â'r penseiri a'r datblygwyr er mwyn sicrhau bod yr Orsaf Fysiau a'r Sgwâr Canolog yn adlewyrchu ei ymrwymiad i gynwysoldeb.

Mae'r RNIB a Guide Dogs yn hapus gyda'r ymrwymiadau hyn a bydd y CCAFG yn monitro'r gwaith cyflawni trwy ddiweddariadau rheolaidd i gynorthwyo â datblygiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

*"Mae defnyddwyr gwasanaethau Sefydliad y Deillion Caerdydd a'r RNIB yn bobl sydd wedi colli golwg ac sy'n teithio i Stryd Womanby lle mae swyddfeydd y sefydliadau. Roedd cau'r orsaf fysiau wedi effeithio ar bron pob un ohonyn nhw; bu'n rhaid i'r staff fynd gyda nhw i chwilio am y safleoedd bysiau newydd, rhoddwyd llawer o bobl agored i niwed mewn perygl."*

**Guide Dogs Cymru**

# Sut i gynnal ymgynghoriad cynhwysol a hygyrch

*“Gall addasiadau cymharol fach olygu’r gwahaniaeth rhwng cynhwysiant a chamwahaniaethu.”*

**RNIB**

**1. Ymgysylltu’n gynnar**

Ni fydd proses ymgynghori gynhwysol a hygyrch yn cael ei chyflawni ond os ymgysylltir yn gynnar ac yn effeithiol cyn datblygu cynigion ar gyfer newidiadau neu doriadau i wasanaethau bysiau. Dylid rhoi’r cyfle i gymunedau ddod yn bartneriaid gweithredol yn y gwaith o ddatblygu cynigion, yn hytrach na derbynyddion goddefol penderfyniadau a wneir drostynt.

Bydd ymgysylltu ar ddechrau’r gwaith o ddatblygu cynigion yn galluogi Awdurdodau Lleol i ddeall yr angen cymdeithasol yn well ac o ganlyniad llunio opsiynau gwell i gael eu hystyried. Bydd hefyd yn sicrhau bod y cynigion a’r gwahanol opsiynau wedi cael eu hystyried yn iawn e.e. nid torri’r gwasanaethau bysiau a ddefnyddir leiaf neu sydd â’r gost uchaf am bob taith gan deithiwr. Gall y broses ymgysylltu hefyd helpu i gasglu gwybodaeth am ba wasanaethau a ddarperir eisoes, pwy sy’n eu defnyddio ac effaith eu tynnu’n ôl.

Hefyd, os yw cynigion ac opsiynau wedi cael eu datblygu gyda’r gymuned o’r dechrau, yna pan wneir penderfyniadau mae Awdurdodau Lleol yn llai tebygol o wyneb gwrthwynebiad. Gall cymunedau hefyd helpu i wneud llwybr sy’n cael cymhorthdal yn rhannol neu’n hollol fasnachol, er enghraifft, efallai y byddant eisiau cynnal ymgyrch ‘Byddwch yn ei golli os na fyddwch yn ei ddefnyddio’.

Gall gwaith ymgysylltu â'r gymuned hefyd arwain at atebion sy'n lliniaru'r newidiadau a gynigir, er enghraifft, a oes ffordd y gellid lleihau costau trwy leihau gwasanaeth neu gyflwyno newidiadau i lwybrau.

---

***Awgrym defnyddiol:***

*Sefydlu grŵp o gynrychiolwyr (sy'n cael ei gydgysylltu o bosibl trwy gynghorau tref a chymuned) i edrych ar gynigion o bob ardal ac ar opsiynau posibl a fydd yn rhoi cyfleoedd i gymunedau gymryd rhan a bod â pherchnogaeth ar wasanaethau.*

---

***Awgrym defnyddiol:***

*Dylai'r gwaith ymgysylltu fod gyda'r gymuned leol yn ogystal â 'chymunedau hunaniaeth' fel grwpiau pobl anabl (gweler Atodiad B).*

---

Dylai gwaith ymgysylltu gynnwys ymrwymiad i ddeialog cynnar a pharhaus gyda chwmnïau bysiau a gweithredwyr trafnidiaeth gymunedol er mwyn datblygu opsiynau arloesol sy'n lleihau effaith y gostyngiadau yn y cymhorthdal, y gellir wedyn eu cyflwyno wrth ymgynghori â'r cyhoedd. Mae gweithredwyr yn debygol o fod â syniadau o ran lleihau costau a bod yn awyddus i ddiogelu gwasanaethau lle bo modd, efallai trwy leihau cerbydau a newid llwybrau.

Efallai y bydd opsiynau hefyd o ran datblygu gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol seiliedig ar alw, trefniadau 'bwydo' neu ategu'r gwasanaethau presennol gyda chludiant i'r ysgol. Bydd cynnig modelau gwahanol i ddarparu trafnidiaeth, fel trafnidiaeth seiliedig ar alw, hefyd yn lleihau nifer yr ymatebion negyddol trwy ddangos bod Awdurdodau Lleol eisiau parhau i fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus.

Ni ddylai gwaith ymgysylltu byth fod yn docenistaidd neu'n fater o dicio blychau. Ni ddylai'r broses ymgysylltu fod yn fersiwn wedi'i glastwreiddio o gyfranogiad

nad yw ond yn rhoi cyfiawnhad i'r penderfynwyr go iawn, lle mae dewis cyfyngedig i bob pwrpas yn golygu dim dewis o gwbl.

Dylai Awdurdodau Lleol ganiatáu digon o amser i gynnal ymgynghoriad llawn. Os yw gweithredwr yn rhoi rhybudd y bydd yn canslo gwasanaeth masnachol, neu'n ei leihau'n sylweddol, dylid trefnu contract brys i gadw'r gwasanaeth i redeg ar y lefel bresennol hyd nes y gellir penderfynu a ddylid rhoi cymhorthdal i'r gwasanaeth hwnnw.

## Astudiaeth Achos

Cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus hanner diwrnod mewn lleoliad cymunedol. Ymgynghorir bob amser â'r cymunedau y bydd y cynigion yn cael yr effaith fwyaf arnynt. Yn aml iawn cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus i ganfod pa wasanaethau sydd bwysicaf ym marn pobl, cyn i unrhyw gynigion gael eu hystyried hyd yn oed. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cydnabod ei bod yn bwysig siarad â'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau er mwyn deall union anghenion a gofynion y gymuned. Fel arfer mae'n trefnu'r digwyddiad ei hun yn hytrach na thrwy grŵp penodol neu fel rhan o unrhyw ddigwyddiad arall, gan y teimla ei bod yn helpu i sicrhau y caiff gymaint o ddiddordeb ag sy'n bosibl oddi wrth y gynulleidfa darged. Yn amlach na pheidio mae nifer dda o bobl yn dod i'r digwyddiadau a gynhelir yn y neuadd gymunedol / neuadd bentref neu yn rhywle sy'n ganolog i'r dref / pentref.

**2. Ymgynghoriad cyhoeddus**

Dylid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ehangach cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl i'r cynigion gael eu datblygu. Mae'n bwysig i'r ymgynghoriad fod yn werth chweil h.y. ni ddylai'r penderfyniad fod wedi'i wneud eisoes a dylai'r cyhoedd allu dylanwadu ar y penderfyniad terfynol.

Argymhellir y dylid ymgynghori dros gyfnod o ddeuddeg wythnos.

*2.1 Beth ddylai gael ei gyfleu?*

Dylai esboniad llawn o'r rhesymau pam mae'r newidiadau'n cael eu cynnig gael ei rannu â'r cyhoedd. Dylai'r broses fod yn agored ac yn dryloyw a dylai gynnwys manylion beth sy'n cael cymhorthdal ar hyn o bryd a faint o arbedion mae angen eu gwneud, er mwyn helpu i ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd. Os nad yw llwybrau'n hyfyw yn fasnachol mae angen esbonio hyn i'r cyhoedd.

Bydd darparu digon o wybodaeth mewn fformatau hygyrch (gweler 2.3) yn helpu i wneud yr ymgynghoriad yn gynhwysol ac yn hygyrch. Dylid cyflwyno manylion y cynigion a'r opsiynau mewn ffordd syml a heb ddefnyddio jargon e.e. pa wasanaethau fydd yn newid a sut, beth fydd yn aros a beth fydd yn cael ei dynnu'n ôl. Dylai unigolion allu cael syniad da o'r effaith y bydd y newidiadau'n ei chael arnynt, megis maint y newidiadau a'r amserlen.

---

***Awgrym defnyddiol:***

*Ei gwneud yn glir nad oes unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud a bod yna gyfle i ddylanwadu ar ganlyniad y penderfyniad.*

---

*2.2 Â phwy ddylid ymgynghori?*

I ddechrau dylid targedu'r ymgynghoriad at y rhai mae'r gwasanaethau'n effeithio arnynt a'r rhai sy'n dibynnu arnynt neu'n cael budd ohonynt e.e. ymgynghori â phobl ar y bws neu wrth safleoedd bysiau.

Fodd bynnag, lle mae gwasanaethau newydd yn cael eu cyflwyno neu wasanaethau'n cael eu hymestyn mae'n bwysig ymgynghori â phobl nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau ac â defnyddwyr gwasanaethau eraill. Mae'n synnwyr busnes da i beidio â chau allan gwsmeriaid posibl e.e. y rhai nad ydynt

wedi defnyddio gwasanaethau o’r blaen oherwydd nad oeddent yn diwallu eu hanghenion, neu oherwydd nad oeddent yn gwybod am y gwasanaeth oherwydd y methwyd â’i hyrwyddo ar raddfa ddigon eang neu mewn fformat hygyrch.

Fel y nodir yn Adran Un mae’n bwysig ymgynghori â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol neu’r hyn a elwir ‘cymunedau buddiant’ er mwyn sicrhau bod gwasanaethau’n berthnasol i’w hanghenion ac yn cael eu darparu mewn modd teg. Fodd bynnag, gall ymgysylltu’n gynnar â grwpiau y bydd effaith anghymesur arnynt helpu i ail-lunio gwasanaethau er mwyn gwella mynediad i grwpiau penodol.

Ni fydd ymgynghoriad yn gwbl gynhwysol ond os yw pob rhan o’r gymuned yn cymryd rhan ynddo, gan gynnwys busnesau lleol.

***Awgrym defnyddiol:***

*Ystyriwch bethau a allai ysgogi teithiau ar fysiau, fel sefydliadau iechyd, addysg a manwerthu.*

*2.3 Sut mae gwneud y broses ymgynghori’n gynhwysol?*

Yn aml gall y mecanweithiau a ddefnyddir i ymwneud â chymunedau arwain at atgyfnerthu anghydraddoldebau cymdeithasol sy’n bodoli eisoes. Mae angen i broses ymgynghori dda symud i ffwrdd o syniadau traddodiadol ynghylch cyfranogiad, aelodaeth a gweithgarwch er mwyn iddi fod yn gwbl gynhwysol a hygyrch. Mae’n bosibl y bydd angen amrywiaeth o ddulliau gwahanol er mwyn cyrraedd cynulleidfa amrywiol, gan y bydd un dull yn annigonol. Dylid mynd ati i ymgynghori gyda’r syniad y gall pob aelod o’r gymuned gymryd rhan weithredol yn y gymuned.

Gall grwpiau/sefydliadau cymunedol (gweler Atodiad B) helpu i ddarparu ffordd effeithiol o gyrraedd pobl. Fodd bynnag, ni ddylid cymryd bod y gymuned yn siarad ag un llais ac felly mae angen ymgynghori â chynifer o grwpiau cynrychioladol ag sy'n bosibl. O gofio'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig weithiau â gwneud newidiadau i wasanaethau bysiau, yn aml ymchwil ansoddol trwy ddigwyddiadau sy'n cynnwys rhwydweithiau a grwpiau cymunedol sy'n bodoli eisoes yw'r ffordd orau o sicrhau bod y broses ymgynghori'n gynhwysol ac yn hygyrch.

Yn aml gall ymchwil ansoddol fod yn fwy effeithiol er mwyn cael safbwyntiau ar ffyrdd eraill o ddarparu gwasanaethau, yn enwedig os oes newidiadau i fod i'r ddarpariaeth gwasanaethau bysiau confensiynol mewn rhai lleoedd, neu efallai safbwyntiau ar ffyrdd eraill o ddarparu trafnidiaeth seiliedig ar alw.

Mae angen targedu a dosbarthu deunyddiau yn effeithiol i bawb sy'n dibynnu ar y gwasanaethau y bydd effaith arnynt. Bydd anfon holiaduron i'r rhan fwyaf o gyfeiriadau preswyl a masnachol yn sicrhau bod pawb a gyfrannodd atynt wedi cael gwybod am yr ymgynghoriad ac wedi cael cyfle i ddylanwadu ar y broses. Dylid anfon holiaduron gyda llythyrau at grwpiau cymunedol, cymdeithasau preswylwyr a grwpiau anodd eu cyrraedd. Dylech eirio'r holiaduron mewn modd priodol er mwyn gofyn am y newid, er enghraifft, os yw'r cwestiwn yn gofyn a ddylid torri'r gwasanaeth, mae'r ateb yn debygol o fod yn negyddol.

Mae angen i ddigwyddiadau fod yn gwbl hygyrch a chael eu cynnal mewn lleoliadau a ddefnyddir gan y cyhoedd gan gynnwys llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol lleol, neuaddau eglwys a swyddfeydd dinesig. Hefyd dylech ystyried a oes trafnidiaeth ar gael i gyrraedd y digwyddiad, yn arbennig os yw'n cael ei gynnal gyda'r nos.

Dylid hysbysebu'r ymgynghoriad trwy ddefnyddio posteri a gaiff eu harddangos ar raddfa eang yn yr holl lyfrgelloedd lleol, swyddfeydd tai lleol, canolfannau dinesig / canolfannau cymunedol / ar y bysiau ac wrth safleoedd bysiau. Gall hysbysebion mewn papurau newydd lleol fod yn effeithiol hefyd.

Mae'n bwysig sicrhau bod gwefannau, taflenni a holiaduron yn hygyrch ac yn hawdd i'w darllen a'u defnyddio. Mae cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio fwyfwy fel ffordd o ymgynghori ar raddfa eang â chymunedau. Gellir ceisio cymorth a chyngor gan y grwpiau / sefydliadau cymunedol yr ymgynghorir â nhw, a chan Gyfranogaeth Cymru neu'r Ganolfan Hygyrchedd Digidol.

Mae cyfle hefyd i Awdurdodau Lleol a chwmnïau bysiau greu cyswllt â digwyddiadau a gynhelir gan Bus Users Cymru. Bob blwyddyn mae Bus Users Cymru yn hwyluso mwy nag ugain o ddigwyddiadau mewn mannau ledled Cymru. Mae mynediad i'r digwyddiadau am ddim ac maent yn denu'r cyhoedd (yn deithwyr ac yn bobl nad ydynt yn teithio ar fysiau) yn yr ardal leol, staff cwmnïau bysiau a swyddogion trafnidiaeth o Awdurdodau Lleol. Dylai'r awdurdodau lleol ddefnyddio'r digwyddiadau hyn i roi gwybodaeth i'r cyhoedd ac i ymgynghori â nhw.

*Awgrym defnyddiol:*

*Gwneud cyfarfodydd, digwyddiadau a deunyddiau'n hygyrch (gweler Atodiad C)*

**Sut i wneud deunyddiau'n hygyrch i bobl â namau ar eu golwg:**

- Dim dogfennau PDF
- Dim geiriau cyfan mewn llythrennau bras heb fod angen
- Dim graddliwio
- Cadwch at gyferbyniad uchel gyda Du ar wyn neu Ddu ar felyn
- Defnyddiwch gyn lleied ag sy'n bosibl o danlinellu a phrint italig
- Mae deunydd sydd wedi'i dablu'n anhygyrch i'r rhai sy'n defnyddio Braille a darllenwyr sgrin
- Defnyddiwch bapur heb sglein os caiff deunyddiau eu cyhoeddi
- Cadwch at ffontiau fel Arial neu Calibri sydd heb seriffau
- Peidiwch byth ag unioni i'r dde (mae'n ei gwneud yn anos i'r rhai sy'n defnyddio chwyddhad weithio allan a yw'n dod i ddiwedd llinell)
- Ffont 14pt o leiaf, 16pt os oes modd

Caniatewch ddigon o amser i ddadansoddi'r canlyniadau a hefyd amser i fynd yn ôl at y cwmnïau bysiau a gweithredwyr trafnidiaeth gymunedol gyda chynigion newydd.

Ar ôl i benderfyniad gael ei wneud lluniwch adroddiadau sy'n esbonio sut a pham y cafodd y cynigion gwreiddiol eu haddasu yng ngoleuni'r ymgynghoriad neu pam y cafodd yr opsiwn hwnnw ei ddewis.

Gwnewch Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad er mwyn canfod yr effaith mae'r newidiadau neu doriadau arfaethedig i wasanaethau bysiau'n debygol o'i chael ar y gallu i gydymffurfio â dyletswydd y Sector Cyhoeddus. Hefyd defnyddiwch yr ymatebion i asesu'r effaith ar bobl â nodweddion gwarchodedig penodol. Dylid cyhoeddi adroddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

A'i roi'n syml defnyddiwch ganlyniadau'r ymgynghoriad i:

- Dynnu sylw at anghydraddoldebau posibl
- Ymchwilio i'w hachosion sylfaenol
- Dileu unrhyw annhegwch neu anfantais

Enghraifft – ymatebodd 100 o bobl i holiadur, dywedodd 75 eu bod yn fodlon ar opsiwn lleihau llwybrau. Yn draddodiadol câi hynny ei ystyried yn ganlyniad da i'r gwasanaeth. Fodd bynnag, wrth wneud gwaith monitro cydraddoldeb, gall y dadansoddiad ddangos bod y 25 o bobl a anghytunodd i gyd yn bobl hŷn neu i gyd wedi dweud bod ganddynt anabledd. Byddai hyn yn dangos y byddai effaith anghymesur ar y bobl hynny â nodweddion gwarchodedig penodol yn y gymuned honno.

# Casgliad

Nid gwneud penderfyniad yw diwedd y broses ymgynghori; mae hefyd yn bwysig iawn cyfleu'r canlyniadau. Dylid esbonio'r penderfyniad a wnaethpwyd a dylid cynhyrchu crynodebau o'r holl ymatebion h.y. y wybodaeth o'r gwaith ansoddol a meintiol. Dylai'r wybodaeth hefyd ddangos sut a ble mae'r cynigion gwreiddiol wedi cael eu haddasu yng ngoleuni'r ymatebion a gafwyd. Dylid hefyd cynnwys amserlen o'r hyn a fydd yn digwydd nesaf.

Rhaid i'r ymgynghoriad fod yn broses ddwyffordd a dylai Awdurdodau Lleol ddarparu adborth ar yr hyn a ddywedwyd ac a benderfynwyd er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod y cafodd eu lleisiau eu clywed ac y cafodd eu cyfraniadau eu cydnabod a'u gwerthfawrogi. Bydd pwysleisio gwerth ymgynghoriadau yn helpu i hybu ymgysylltu yn y dyfodol.

Ar ôl i'r penderfyniad gael ei gyfleu'n llawn, dylai Awdurdodau Lleol gydweithio â gweithredwyr i sicrhau y rhoddir gwybod i deithwyr mewn modd clir ac amserol am newidiadau i wasanaethau. Mae'n bwysig bod teithwyr, sydd efallai yn dibynnu ar y gwasanaethau hyn i gyrraedd y gwaith neu i ddefnyddio gwasanaethau pwysig, hefyd yn cael cymaint o rybudd ag sy'n bosibl er mwyn gwneud trefniadau eraill. Mae'n bwysig y rhoddir adborth i'r rhai a gyfrannodd at yr ymgynghoriad, ynghyd ag effaith bosibl unrhyw newidiadau.

Byddai argymhellion y pecyn cymorth, o gael eu gweithredu'n llawn, o fudd i bawb sy'n defnyddio bysiau a thrafnidiaeth gymunedol. Byddai'r argymhellion yn arwain at ddull mwy cydweithredol, sy'n canolbwyntio'n fwy ar y gymuned, o wneud penderfyniadau ar wasanaethau trafnidiaeth yn y dyfodol - 'Cyrraedd yno gyda'n gilydd'.

# Atodiadau

## Atodiad A – Cyfeiriadau


Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (2015) 'Arweiniad Ymgynghori a Monitro Cydraddoldeb 2015' [Ar lein] Ar gael ar: http://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Equalities/Information-and-guidance?lang=cy-gb

Campaign for Better Transport (2013) Campaigner's Guide to: Saving your Bus Service in Wales [Ar lein] Ar gael ar: http://www.bettertransport.org.uk/save-our-buses/sob-campaign-pack

Anabledd Cymru (2015) Model Anabledd Cymdeithasol [Ar lein] Ar gael ar: http://www.disabilitywales.org/cy/model-cymdeithasol/

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2015) 'Canllaw – Eich Hawliau i Gydraddoldeb: Trafnidiaeth' [Ar lein] Ar gael ar: http://www.equalityhumanrights.com/cy/eich-hawliau/defnyddwyr-gwasanaeth/trafnidiaeth-theithio

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2014) 'Canllawiau ymarfer gorau ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â phobl hŷn ar newidiadau i wasanaethau cymunedol yng Nghymru' [Ar lein] Ar gael ar: http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Community_Services_Guidance_for_LAs_Welsh.sflb.ashx

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2014) 'Pwysigrwydd ac Effaith Gwasanaethau Cymunedol yng Nghymru' [Ar lein] Ar gael ar: http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Pwysigrwydd_ac_Effaith_Gwasanaethau_Cymunedol_yng_Nghymru.sflb.ashx

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2014) 'Ymgysylltu Effeithiol gydag Awdurdodau Lleol: Pecyn cymorth ar gyfer Pobl Hŷn' [Ar lein] Ar gael ar: http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Community_Services_Toolkit_for_Older_People_Welsh.sflb.ashx

RNIB (2014) 'Get on Board: How to make bus travel better for people with sight loss' [Ar lein] Ar gael ar: https://www.rnib.org.uk/sites/default/files/Get%20On%20Board.pdf

RNIB (2006) 'See it Right' [Ar lein] Ar gael ar: https://www.ntu.ac.uk/equality_diversity/document_uploads/92879.pdf

Passenger Focus (2012) 'Bus service reviews consulting on changes to local services, A best practice toolkit' [Ar lein] Ar gael ar: http://www.transportfocus.org.uk/research/publications/bus-service-reviews-consulting-on-changes-to-local-services-a-best-practice-toolkit

Sustrans (2012) 'Access Denied' [Ar lein] Ar gael ar: http://www.sustrans.org.uk/sites/default/files/images/files/Access%20Denied_eng.pdf

## Atodiad B – Cysylltiadau

Age Cymru
Tŷ John Pathy
13/14 Neptune Court
Vanguard Way
Caerdydd
CF24 5PJ
Ffôn: 0292043 1555
Gwefan: http://www.ageuk.org.uk/cymru/

Guide Dogs Cymru
Building 3
Eastern Business Park
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 5EA
Ffôn: 0118 983 8746
E-bost: Cardiff.MobilityTeam@guidedogs.org.uk
Gwefan: https://www.guidedogs.org.uk/guide-dogs-cymru/#.VgrLy9GFPIU

Bus Users Cymru
PO Box 1045
Caerdydd
CF11 1JE
Ffôn: 029 2034 4300
Rhif cwynion: 0300 111 0001
Gwefan: http://www.bususers.org/cymru-wales/about-us

Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Caerdydd
First Floor West
113-116 Stryd Bute
Caerdydd
De Morgannwg
CF10 5EQ
Ffôn: 029 2021 4411
Gwefan: http://cgtp.co.uk/

Chwarae Teg
Llawr 1af
Anchor Court
Keen Road
Caerdydd
CF24 5JW.
Ffôn: 029 2047 8900
E-bost: post@chwaraeteg.com
Gwefan: http://www.cteg.org.uk/contact/

Cymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru
Canolfan Forge Fach
Heol Hebron
Clydach
Abertawe
SA6 5EJ
Ffôn: 01792 844290
E-bost info@ctauk.org
Gwefan: http://www.ctauk.org/in-your-area/in-your-area-cymru.aspx

Anabledd Cymru
Bridge House
Caerphilly Business Park
Van Road
Caerffili
CF83 3GW
Ffôn: 029 2088 7325
E-bost: info@disabilitywales.org
Gwefan: http://www.disabilitywales.org/cy/

Displaced People in Action
Adeilad y Gyfnewidfa
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5EB
Ffôn: 029 2048 2478
Gwefan: https://www.dpia.org.uk/

Y Ganolfan Hygyrchedd Digidol
Gwefan: http://www.digitalaccessibilitycentre.org/

Rhyng-ffydd Cymru
d/o Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru)
58 Heol Richmond
Caerdydd
CF24 3UR
Ffôn: 029 2046 4204
E-bost: post@cytun.org.uk
Gwefan: http://www.cytun.org.uk/interfaithwales/interfaith_eng_contact.html

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL
Ffôn: 08442 640 670
E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com
Gwefan: http://www.olderpeoplewales.com/wl/Home.aspx

Cyfranogaeth Cymru
Gwefan: http://www.participationcymru.org.uk/home?seq.lang=cy-GB

Race Equality First
1st Floor West
Portland House
113-116 Stryd Bute
Caerdydd
CF10 5EQ
Ffôn: 029 2048 6207
Gwefan: http://www.refweb.org.uk/

RNIB Cymru
Stryd Womanby
Caerdydd
CF10 1BR
Ffôn: 029 2082 8500
Gwefan: http://www.rnib.org.uk/cy/wales-cymru-1

Stonewall Cymru
Transport House
1 Heol yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd
CF11 9SB
Ffôn: 0292023 7744
E-bost: cymru@stonewallcymru.org.uk
Gwefan: http://www.stonewallcymru.org.uk/cy

Cyngor Ffoaduriaid Cymru
120-122 Broadway
Caerdydd
De Morgannwg
CF24 1NJ
Ffôn: 029 2048 9800
Gwefan: http://welshrefugeecouncil.org.uk/

Youth Cymru
Unit D/Upper Boat Trading Estate
Pontypridd
CF37 5BP
Ffôn: 01443 827840
Gwefan: http://youthcymru.org.uk/cy/

# Atodiad C – Cyfarfodydd a digwyddiadau hygyrch

1. Canllawiau cyffredinol
2. Sicrhau bod lleoliadau'n hygyrch
3. Digwyddiadau mae pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn dod iddynt
4. Digwyddiadau mae pobl ag anableddau dysgu yn dod iddynt
5. Digwyddiadau mae pobl â nam ar eu golwg yn dod iddynt
6. Digwyddiadau mae pobl fyddar neu drwm eu clyw yn dod iddynt
7. Digwyddiadau mae pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn yn dod iddynt
8. Digwyddiadau mae pobl â phroblemau iechyd meddwl yn dod iddynt

## 1. Canllawiau cyffredinol

- Rhowch wybod i bobl bod y cyfarfod / cynhadledd yn hygyrch ac y gellir trefnu cynorthwywyr / cyfieithwyr ar y pryd / dehonglwyr. Bydd pobl eisiau gwybod a oes angen iddynt dalu am unrhyw beth er mwyn dod.
- Paratowch ffurflenni cadw lle mewn amrywiaeth o fformatau.
- Rhowch i bobl opsiynau e-bost, ffôn, ffacs a phost.
- Gofynnwch i'r siaradwyr ddarparu eu cyflwyniadau o leiaf pedair wythnos cyn y gynhadledd fel y gellir eu paratoi a'u hanfon allan mewn gwahanol fformatau os oes angen.
- Mae'n bosibl y bydd angen i chi anfon papurau allan bythefnos cyn y digwyddiad (hefyd mewn gwahanol fformatau).

- Bydd arwyddion syml, clir a lliwgar yn helpu pobl i gyrraedd yr ystafell gyfarfod.
- Ar ddechrau'r cyfarfod, sefydlwch reolau'r cyfarfod a rhowch wybod i bobl am y trefniadau ymarferol ac addasiadau hygyrch.
- Wrth bylu'r goleuadau ar gyfer y cyflwyniad gwnewch yn siŵr bod pobl yn dal i allu gweld eu cynorthwyydd (er enghraifft, dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain). Gallech roi cynnig ar gau llenni i leihau llacharedd ond cadw'r goleuadau ynghynn.
- Dywedwch wrth y staff fod gwneud y digwyddiad yn hygyrch yn flaenoriaeth a bod pobl anabl yn gwerthfawrogi agwedd gadarnhaol. Dywedwch wrth y staff am yr addasiadau hygyrchedd rydych wedi'u gwneud a'r newidiadau rydych eisiau eu gwneud. Gwnewch yn siŵr eu bod wedi'u paratoi'n dda i ymdrin ag unrhyw broblemau ac i wneud rhagor o newidiadau ar y diwrnod.
- Labelwch unrhyw fwyd. Dywedwch a yw'n gig, yn fwyd llysieuol neu'n figan. Rhowch gig a physgod ar wahân i fwyd llysieuol.
- Ceisiwch osgoi porc, cig eidion a physgod cregyn. Mae hyn yn diwallu llawer o anghenion dietegol.
- Gwnewch yn siŵr fod unrhyw adloniant gyda'r nos hefyd yn hygyrch.

## 2. Sicrhau bod lleoliadau'n hygyrch

- Cyn bwcio ewch i unrhyw leoliad nad ydych wedi'i ddefnyddio o'r blaen i wirio a yw'n hygyrch.
- Defnyddiwch restr wirio i asesu hygyrchedd. Dylech ofyn i'r lleoliad ynghylch:

- Mannau parcio dynodedig sy’n ddigon llydan i ganiatáu i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn fynd i mewn ac allan o’r cerbyd (gyda digon o le bob ochr i’r car a’r tu ôl iddo)
- Intercom gweladwy wrth y fynedfa, er mwyn sicrhau bod pobl fyddar a thrwm eu clyw a phobl â namau corfforol yn dal i allu dod i mewn
- A oes mynediad gwastad rhwng y palmant a’r ffordd neu’r llethr sy’n arwain at y man isel sy’n hygyrch i bobl â phroblemau symudedd neu bobl sy’n defnyddio cadeiriau olwyn?
- Mynedfeydd ac allanfeydd gwastad?
- Ydi’r coridorau’n ddigon llydan i ddefnyddio cadeiriau olwyn?
- A ganiateir cŵn tywys yn y lleoliad?
- A oes lifftiau ar gael sy’n hygyrch i gadeiriau olwyn? Os oes modd, cynhaliwch y digwyddiad ar un llawr yn unig
- A oes toiledau hygyrch?
- A oes desg dderbyn neu gloch i alw am gymorth?
- A oes mannau tawel i siaradwyr, perfformwyr, arddangoswyr?
- A oes gan y lleoliad ddolen sain mewn mannau pwysig, er enghraifft y dderbynfa ac ystafelloedd cyfarfod?
- A ellir newid yr amodau goleuo?
- Ydi’r socedi trydan yn hawdd eu cyrraedd ac â chyferbyniad lliw addas?
- A oes amrywiaeth o seddi ar gael o gwmpas yr adeilad?

- Allwch chi reoli'r tymheredd yn yr ystafell? Ydi'r system aerdymheru'n rhy swnllyd neu bwerus?
- A oes lle i bobl symud o gwmpas gyda hambyrddau a lle i bawb allu eistedd wrth fwrdd yn y man bwyta?
- A oes siartiau troi ac ysgrifbinnau ar gael os oes angen?
- A oes mannau smygu hygyrch dan do y tu allan?
- Ydi staff y lleoliad wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac anabledd?
- Ydi gweithdrefn gwagio'r adeilad mewn argyfwng yn diwallu anghenion pobl â namau symudedd a synhwyraidd?

## 3. Digwyddiadau mae pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn dod iddynt

- Wrth osod yr amser a'r dyddiad osgowch benwythnosau, gwyliau ysgol a gwyliau crefyddol. Er enghraifft, nid yw'n ddoeth cynllunio cyfarfodydd gyda'r nos yn ystod Ramadan pan mae pobl yn tueddu i gyfarfod â'u teuluoedd. Ceir rhestr o wyliau crefyddol ar www.interfaithcalendar.org http://www.bbc.co.uk/religion
- Ystyriwch amserau gweddïo Mwslimaidd – maent yn newid bob dydd ac yn y gaeaf a'r haf. Gweler www.islamicfinder.org i gael mwy o wybodaeth.
- Cynlluniwch seibiannau i gyd-fynd ag amserau gweddïo.
- Ystyriwch drefnu ystafell weddïo (a allai hefyd fod yn ystafell dawel).
- Gofynnwch i'r bobl rydych yn eu gwahodd a oes angen cymorth iaith arnynt. Dylai gwaith cyfieithu, cyfieithu ar y pryd a dehongli gael ei gyflawni gan weithwyr proffesiynol.

## 4. Digwyddiadau mae pobl ag anableddau dysgu'n dod iddynt

- Mae llawer o bobl ag anableddau dysgu'n darllen gwybodaeth ar ffurf a elwir 'hawdd ei deall' (edrychwch ar y canllawiau ar Fformatau Eraill neu cysylltwch â'r Tîm Cydraddoldeb). Holwch a ddylid darparu dogfennau mewn fformat 'hawdd eu deall'. Mae cyhoeddiadau hawdd eu deall yn defnyddio lluniau bob amser i ddangos ystyr y testun.
- Defnyddiwch eiriau syml a lluniau. Osgowch acronymau a jargon.
- Peidiwch â chynllunio gormod o bethau mewn un cyfarfod a rhowch y pethau pwysicaf ar frig eich agenda.
- Sicrhewch fod gwybodaeth ar gael mewn fformat sain (mp3) neu ar CD (sy'n cynnwys dogfennau mewn fformatau gwahanol) os oes angen hyn ar bobl.
- Ystyriwch ddefnyddio cyflwyniad PowerPoint neu siart droi i gynorthwyo â'r drafodaeth.
- Mae cardiau goleuadau traffig yn ddefnyddiol mewn cyfarfodydd. Gallwch gael cerdyn gwyrdd ar gyfer iawn/dwi'n cytuno, cerdyn coch ar gyfer na/dwi'n anghytuno a cherdyn oren ar gyfer arafwch/dywedwch eto.
- I helpu pobl i ddilyn yr agenda gallech ddangos llun ar gyfer pob eitem ar yr agenda a'i dynnu i lawr pan mae'r eitem wedi cael ei thrafod.

## 5. Digwyddiadau mae pobl â nam ar eu golwg yn dod iddynt

- Cyn y digwyddiad, gofynnwch i bobl a hoffen nhw gael papurau mewn fformat arall fel Braille, print bras neu sain (edrychwch ar y canllawiau ar Fformatau Eraill neu cysylltwch â'r Tîm Cydraddoldeb i gael mwy o wybodaeth).

- Os byddwch chi'n defnyddio fideo yn ystod y digwyddiad holwch a oes fersiwn â disgrifiad clywedol ar gael. Mae hyn yn golygu bod yna naratif ychwanegol i ddweud wrth bobl am fynegiant wyneb, iaith corff, gweithrediadau a gwisgoedd.

- Os rhoddir cyflwyniad PowerPoint, gwnewch yn siŵr:

  - y defnyddir ffurfdeip syml, clir a mawr (er enghraifft, Arial neu Helvetica, o leiaf 20 pwynt o faint)
  - bod y testun wedi'i alinio i'r chwith
  - nad oes dim blociau mawr o briflythrennau, dim print italig a dim geiriau wedi'u tanlinellu
  - bod cyferbyniad da rhwng y testun a'r cefndir
  - nad oes dim gwybodaeth yn cael ei chyfleu trwy ddefnyddio lluniau, diagramau, mapiau a lliw yn unig
  - bydd cyferbyniad cryf rhwng y testun a'r cefndir yn gwneud eich dogfen yn gliriach ac yn haws ei darllen. Testun du ar gefndir gwyn a **thestun glas cryf ar gefndir melyn** sy'n rhoi'r cyferbyniad gorau. Mae'n bosibl y bydd pobl â lliwddallineb yn cael problemau gwahaniaethu rhwng coch a gwyrdd. **Wrth ddefnyddio teip gwyn gwnewch yn siŵr bod y cefndir yn dywyll er mwyn rhoi cyferbyniad da.**

- Mewn cyfarfodydd, gallai fod yn anodd i bobl ddall neu rannol ddall siarad. Gallai fod yn arfer da i ddweud y dylai pawb sydd eisiau siarad egluro hynny a bydd y Cadeirydd yn dweud wrth bob un pan ddaw ei dro i siarad. Gwnewch yn siŵr mai dim ond un person all siarad ar y tro.

- Cyflwynwch eich hun gan roi'ch enw a gofynnwch i bobl eraill wneud yr un peth (mae'n bwysig cysylltu llais â'r enw).
- Rhowch syniad lle mae pobl yn yr ystafell. Os ydych chi'n bwriadu symud i ffwrdd, dywedwch wrth y person fel nad yw'n siarad ag awyr gwag.
- Os ydych chi'n bwriadu gadael person dall neu rannol ddall yn sefyll ar ei ben ei hun, gofynnwch iddo a hoffai gael ei dywys i ymyl yr ystafell neu gelficyn.
- Wrth gynnig sedd, gofynnwch a yw eisiau i chi dywys ei law i gefn neu fraich y sedd.
- Cofiwch mai ci gweithio yw ci tywys ac na ddylid ei drin fel anifail anwes.
- Mae'n bosibl y bydd angen i bobl gael eu tywys o un rhan o'r lleoliad i ran arall. Gwnewch yn siŵr fod staff wrth law i helpu gyda hyn. Mae'n bosibl y bydd pobl yn dweud wrthych chi beth yw'r ffordd orau o'u helpu. Os nad ydynt, dylech ofyn iddyn nhw sut maen nhw eisiau cael eu helpu.

## 6. Digwyddiadau mae pobl fyddar neu drwm eu clyw yn dod iddynt

- Mae'n bosibl y bydd angen cymorth o wahanol fathau ar bobl fyddar a thrwm eu clyw er mwyn cymryd rhan mewn cyfarfodydd. Mae rhai pobl fyddar a thrwm eu clyw yn defnyddio system dolen sain, mae eraill yn defnyddio gweithwyr proffesiynol cymorth iaith neu gymhorthion clyw.
- Gall pobl fyddar a thrwm eu clyw gael eu cynorthwyo gan weithwyr proffesiynol cymorth iaith. Mae'r rhain yn cynnwys:
    - Dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain. I lawer o bobl hon yw eu hiaith gyntaf.

- Dehonglwyr cyfleu. Dehonglwr neu berson byddar yw hwn sy’n trosi Iaith Arwyddion Prydain i ffurf benodol fel y gall y person byddar ei deall.

- Nid oes digon o weithwyr proffesiynol cymorth iaith yng Nghymru. Bydd angen i chi drefnu hyn rhwng pedair a chwe wythnos ymlaen llaw. Cyn trefnu gwnewch yn siŵr bob amser eich bod yn cael y math iawn o ddehonglwr.
- Nid oes rhaid i chi ddarparu gwybodaeth ‘fyw’ trwy ddehonglydd bob amser.
  - Gallech ddosbarthu gwybodaeth yn Iaith Arwyddion Prydain ar DVD neu ar wefan (cysylltwch â’r Tîm Cydraddoldeb i gael mwy o fanylion).
- Mae’n bosibl y gofynnir ichi ddarparu mathau eraill o gymorth cyfathrebu:
  - Mae gwefuslefarwyr yn weithwyr proffesiynol hyfforddedig sy’n ailadrodd beth mae person sy’n clywed neu siaradwr yn ei ddweud heb ddefnyddio llais a gellir darllen eu gwefusau.
  - Mae cymerwyr nodiadau’n gweithio’n electronig gan fwyaf ac yn nodi i lawr brif bwyntiau’r hyn sy’n cael ei ddweud.
  - Mae adroddwr llais i destun (neu balanteipydd) yn teipio popeth sy’n cael ei ddweud. Os mai dim ond ychydig o bobl fyddar sy’n defnyddio adroddwr llais i destun, fel arfer gwelir y testun ar sgrin gliniadur, ond gellir ei weld ar sgrin fawr. Gall hyn hefyd helpu pawb i gadw i fyny â’r hyn sy’n cael ei ddweud.
- Os nad oes unrhyw gymorth cyfathrebu ar gael, siaradwch â phobl am y camau eraill y gellir eu cymryd.

- Mae pobl fyddar a thrwm eu clyw yn debygol o ffafrio seddi lle gallan nhw weld yn glir beth sy’n digwydd a lle gallan nhw weld unrhyw gymorth cyfathrebu maen nhw’n ei ddefnyddio.
- Esboniwch mai dim ond un person ar y tro all siarad. Os yw dau berson yn siarad ar yr un pryd, ni fydd y gwefuslefarwr neu’r dehonglwr Iaith Arwyddion Prydain yn gallu cyfleu’r hyn sy’n cael ei ddweud.

## 7. Digwyddiadau mae pobl sy’n defnyddio cadeiriau olwyn yn dod iddynt

- Peidiwch â phwyso ar gadair olwyn rhywun – mae’n rhan o’i ofod personol.
- Ceisiwch beidio â chwmanu neu benlinio, mewn geiriau eraill gostwng eich corff, wrth gyfathrebu â defnyddiwr cadair olwyn neu berson bach. Er, os oes cadair ar gael, defnyddiwch honno.
- Peidiwch byth â symud cadair olwyn heb ganiatâd y person.
- Os oes angen iddo ysgrifennu, cynigiwch glipfwrdd.
- Os yw rhywun eisiau symud o gadair olwyn i gadair gyffredin, mae’n bosibl y bydd sedd â breichiau o gymorth iddo.

## 8. Digwyddiadau mae pobl â phroblemau iechyd meddwl yn dod iddynt

- Peidiwch â dechrau cyfarfodydd yn gynnar yn y bore. Mae’n bosibl y bydd pobl sy’n cymryd meddyginiaeth neu sydd ag iselder yn ei chael yn anodd codi.
- Cadwch rannau o’r cyfarfod sydd â chyflwyniadau yn fyr, gan fod rhai pobl yn ei chael yn anodd canolbwyntio am gyfnodau hir.
- Cynigiwch seibiannau yn rheolaidd gan y gallent fod yn arbennig o bwysig i’r grŵp hwn.

cta wales cymru

Community Transport Association

Cymdeithas Cludiant Cymunedol

Canolfan Forge Fach, Heol Hebron, Clydach,
Abertawe SA6 5EJ

01792 844290 | www.ctauk.org